# Ymchwiliad i gysgu ar y stryd yng Nghymru: ymweliad â Byddin yr Iachawdwriaeth

## Yn bresennol yn yr ymweliad:

Emma Paynter (Rheolwr Gwasanaeth); David Jenkins (Cydgysylltydd y Rhaglenni 'Bridge'/'Compass'); Cath Docherty (Cydgysylltydd y Rhaglen Allgymorth); Yvonne Connolly (Rheolwr Rhanbarthol); defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys o'r Rhaglen 'Bridge'.

## Trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Fyddin yr Iachawdwriaeth yng Nghaerdydd yn cynnwys:

- Northlands, canolfan sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddigartref.
- Y Rhaglen 'Bridge', **sef cyfleuster preswyl ar gyfer paratoi, dadwenwyno ac ôl-ofal 18 mis ar gyfer oedolion digartref** sy'n gweithio mewn partneriaeth ag Uned Ddibyniaeth Caerdydd. Dyma'r unig brosiect o'i fath yng Nghymru sydd â chyllid preswyl.
- Tŷ Gobaith Lifehouse, sef hostel sy'n ceisio ailsefydlu pobl i'r gymuned, a cheir mynediad iddo drwy asesiad ac atgyfeiriad awdurdod lleol. Mae unigolion a atgyfeirir at yr hostel yn aros am gyfartaledd o chwe mis.
- Y Prosiect 'Compass', sy'n brosiect 4 gwely sy'n ceisio rhoi cartref i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd fwyaf, ac nad ydynt yn aml yn mynd dan do ac maent yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â gwasanaethau. Maent yn **darparu cymorth lefel uchel gyda dau aelod o staff ar gyfer pedwar preswylydd** ac maent yn defnyddio model adfer trawma sy'n gweithio ar sail y ragdybiaeth y bydd pobl sydd wedi bod drwy drawma yn ymddwyn yn wahanol iawn yn niwrolegol ac y bydd angen lefel llawer uwch o gymorth a hyblygrwydd arnynt. Ar hyn o bryd nid oes amserlen ar gyfer unigolion yn y prosiect hwn. Mae'n gynllun peilot, sydd wedi'i ariannu gan grant arloesi.
- Y prosiect bws sy'n rhedeg o ddydd Sul i ddydd Iau, 18.30 – 08.30, 52 wythnos y flwyddyn ac sy'n rhan o waith allgymorth ar y stryd, sy'n canolbwyntio ar feithrin cydberthynas â phobl sy'n cysgu ar y stryd. **Mae**

**gan y gwasanaeth gyfradd llwyddiant o 98 y cant o gael unigolion i lety brys neu gael mynediad at y gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arnynt.** Mae nodau'r dyfodol ar gyfer y prosiect yn cynnwys darparu cymorth ar gyfer dibyniaeth a cheisiadau tai ar y bws. Pwysleisiodd y gweithwyr prosiect bwysigrwydd argraffiadau cyntaf ar gyfer meithrin cydberthnasau effeithiol gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd.

- Y gwasanaeth ailgysylltu, ar gyfer unigolion nad oes ganddynt gysylltiad statudol â'r ddinas, sy'n ceisio eu cefnogi yn ôl i'w teulu, os yn bosibl. **Nid oes gan rai unigolion, gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yn symud rhwng cysgu ar y stryd a'r carchar, gysylltiad teuluol na chyswllt lleol o gwbl**, ond maent yn awyddus i aros yng Nghaerdydd, ac felly gall gweithwyr prosiect weithio gyda'r person a herio penderfyniadau awdurdodau lleol i'w symud ymlaen.
- Y peilot Tai yn Gyntaf, sy'n **ceisio torri'r cylch digartrefedd** drwy weithio'n uniongyrchol gydag unigolion sy'n cysgu ar y stryd i ddarparu llety hirdymor iddynt, gyda'r opsiwn o gymorth dwys, pendant a hyblyg i gadw daliadaeth ar eiddo a sefydlogrwydd mewn annibyniaeth.
- Partneriaeth – rhaglen atal cymunedol, sy'n gweithio gyda mwy na 300 o bobl a theuluoedd yn y gymuned sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan ganolbwyntio ar atal digartrefedd, cynhaliaeth gymunedol a byw'n annibynnol. Mae'r gwasanaeth ar gael drwy atgyfeiriad gan awdurdod lleol neu asiantaeth berthnasol arall.

**Nid yw'r gwasanaethau'n seiliedig ar ddarparu llety yn unig, ond yn aml ar anghenion cymhleth unigolion**, er enghraifft y rhaglen dadwenwyno 'Bridge'. Dim ond drwy atgyfeiriad y ceir mynediad at rai, tra bod gan y gwasanaethau allgymorth fynediad agored. Amlygodd y gweithwyr prosiect fod **gwaith allgymorth yn allweddol**, gan fod rhai o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd yn teimlo na allant geisio cael mynediad at wasanaethau a llety fel y rhai a ddarperir gan Fyddin yr Iachawdwriaeth.

## Beth y gellid ei wneud yn wahanol? Beth yw'r rhwystrau i gefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd?

**Mae cyllid cyfyngedig ac ansefydlogrwydd mewn cronfeydd yn rhwystr allweddol**. Mae rhai o ffrydiau cyllido Byddin yr Iachawdwriaeth yn gyfyngedig, ac mae rhai yn aros am

benderfyniad y broses gomisiynu. Byddai gwell mynediad a sefydlogrwydd cyllid yn well. Mae hyn hefyd yn effeithio ar adnoddau staff, nad ydynt yn ddigonol yn ôl y gweithwyr prosiect. Er y ceisir arbed arian, mae galw uwch am wasanaethau. Mae Byddin yr Iachawdwriaeth wedi gorfod ychwanegu at yr arian drwy grantiau/gwasanaethau a gomisiynwyd gyda'i hadnoddau ei hun.

Mae newidiadau aml i'r system fudd-daliadau (gan gynnwys y Credyd Cyffredinol, y lwfans tai lleol, gostyngiadau i fudd-daliadau ar gyfer pobl dan 25 oed) gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ffactor sy'n cyfrannu at yr ansefydlogrwydd hwn yn y sector.

**Y mynediad cyfyngedig at driniaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a faint o amser y mae'n ei gymryd i gael mynediad at y driniaeth briodol, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl**, gofal sylfaenol a chymorth cam-drin sylweddau. Roedd un defnyddiwr gwasanaeth yn y rhaglen 'Bridge' wedi aros 14 mis i gael mynediad at unrhyw wasanaethau iechyd meddwl, ac mae wedi bod yn aros dros 18 mis i weld yr ymgynghorydd arbenigol ynghylch ei anghenion. Trafododd y defnyddwyr gwasanaeth a'r gweithwyr prosiect ei bod hi'n haws i rai unigolion gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl nag eraill, e.e. os ydynt yn hysbys i wasanaethau o'r blaen, o gymharu â'r rheini sydd heb gysylltiad lleol, neu sydd wedi'u rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar. Teimlai'r gweithwyr prosiect y gellid gwella hyn drwy fynediad dynodedig a chanllawiau i sefydliadau fel Byddin yr Iachawdwriaeth ar y triniaethau sydd eu hangen i gefnogi unigolion.

Nodwyd fod **mynediad at gymorth i ddefnyddwyr presennol Byddin y Iachawdwriaeth o gymharu ag unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn wahanol iawn**, gan fod gweithwyr prosiect yn gallu gweithio gyda'u defnyddwyr gwasanaeth i gael atgyfeiriadau i driniaeth briodol. Nododd y gweithwyr prosiect fod **y mwyafrif o'r unigolion sy'n cysgu ar y stryd wedi colli pob ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus** erbyn iddynt ddod i ddefnyddio'r gwasanaethau ym Myddin yr Iachawdwriaeth.

Trafododd y defnyddwyr gwasanaeth **faterion iechyd meddwl sy'n cael eu cuddio'n aml yn ystod adegau o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau**, ac felly'n dechrau ymddangos wrth iddynt sobri. Roedd hyn yn cynnwys iselder, anhwylderau personoliaeth, anhwylder straen wedi trawma (PTSD) a sgitsoffrenia. Trafodwyd sut y mae **hygyrchedd i'r gwasanaethau a'r driniaeth briodol yn rhwystr cyson i'r defnyddwyr gwasanaeth**, ac weithiau ni allant gadw llety heb gael y cymorth priodol. Rhoddwyd enghraifft o unigolyn yn y prosiect 'Compass', a fu'n  cysgu ar y stryd yn yr hirdymor oherwydd

cefndir trawmatig, a oedd yn cynnwys dros 30 o leoliadau maeth. Nid oedd yr unigolyn hyd yma wedi gallu cael mynediad at unrhyw wasanaethau iechyd meddwl er ei fod yn hysbys i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ers ei blentyndod.

## Y rhesymau dros y cynnydd mewn pobl yn cysgu ar y stryd

Nododd y gweithwyr prosiect fod **nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd wedi cynyddu**. Trafodwyd fod y naratif i egluro'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd a'r galw am wasanaethau yn gymhleth – nid oes un rheswm dros y cynnydd, a dylid ystyried safbwyntiau personol yr unigolion. Trafodwyd **nad oes atebion cyflym** i bobl sy'n byw ar y stryd yn yr hirdymor, ac y bydd y materion sy'n cyfrannu at ddigartrefedd yn aml yn dechrau'n ifanc iawn, e.e. profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trawma.

Trafododd y gweithwyr prosiect fod y **sector yn ariannol ac yn gymdeithasol ansefydlog**, heb dwf, a bod gweithluoedd yn cael eu bygwth yn barhaus gan doriadau a newid. Mae tendrau'n nodi'n rheolaidd bod angen arbed costau, er gwaethaf y galw cynyddol. Nododd un gweithiwr prosiect **fod angen gwerthoedd arweinyddiaeth ar y sector.**

Mae angen teilwra gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd tuag at eu hanghenion cymhleth, ac mae angen iddynt ddarparu newidiadau pendant megis llety, cwnsela hirdymor, a gwaith trawma.

Trafododd y gweithwyr prosiect y bydd pobl sy'n cysgu ar y stryd weithiau'n cyflawni troseddau allan o anobaith, ar gyfer y llety a'r cymorth cyfyngedig a ddarperir yn y carchar. Fodd bynnag, collir unrhyw gymorth ar ôl i'r unigolyn gael ei ryddhau o'r system cyfiawnder troseddol. Nododd un defnyddiwr gwasanaeth fod ei swyddog prawf wedi cydnabod ei broblemau iechyd meddwl ac wedi trefnu iddo weld Nyrs Seiciatrig Gymunedol, ond nid yw gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi cydnabod anghenion yr unigolyn.

Trafododd y gweithwyr prosiect y byddai sefydlu nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd sydd wedi wynebu penderfyniad bwriadoldeb gan gynghorau (er enghraifft mewn perthynas â thai) yn rhoi cipolwg i p'un a yw'n ffactor mewn achosion o gysgu ar y stryd.

# Ymchwiliad i gysgu ar y stryd yng Nghymru: Ymweliad â Solas Cymru, Cynllun Anghenion Cymhleth, Clarence Place, Casnewydd

Dyddiad: Dydd Mercher 17 Ionawr 2018

Yn bresennol: John Griffiths AC, Jenny Rathbone AC, Megan Jones (Ymchwilydd), Liz Wilkinson (Clerc), Kirsty Thomas (Rheolwr, Solas Cymru), Lisa Chantler (Arweinydd Prosiect, Solas Cymru), Ben (sy'n byw yn Clarence Place) ac Amanda (sy'n byw yn Clarence Place)

**Y cefndir**

Mae Solar Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl sy'n agored i niwed, sy'n ddigartref neu sydd â risg o fod yn ddigartref, gan gynnwys gwasanaethau lletya, gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen, gwasanaethau alcohol a thriniaeth, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae'n gweithio i ddarparu cymaint o gyfleoedd â phosibl i unigolion gael llety parhaol i ymgartrefu ynddo.

Mae Cynllun Anghenion Cymhleth Clarence Place, lle y cynhaliwyd yr ymweliad, yn darparu tai â chymorth i 26 o bobl dros 18 oed drwy ei gynllun llety ynghyd â chwe fflat sydd gan y cynllun. Darperir cymorth i bobl sy'n wynebu heriau ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau dros y tymor hwy. Mae'r tîm staff yn arbenigo mewn gweithio ag anghenion cymhleth a chydweithio'n agos ag asiantaethau i ddatblygu cynlluniau pontio ar gyfer pob person i weithio tuag at fyw'n annibynnol.

Mae gan nifer o'r rheini sy'n manteisio ar gynllun Clarence Place ddigon o brofiad yn cysgu ar y stryd, naill ai yn y tymor byr neu am gyfnodau estynedig.

Mae cynlluniau llety eraill a ddarperir gan Solar Cymru yng Nghasnewydd yn cynnwys cynllun sy'n cynnig mynediad uniongyrchol ar Stryd Albert a fflatiau un ystafell ar gyfer unigolion a theuluoedd sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref yn Clifton Place.

**Y prif faterion a drafodwyd**

**Atgyfeirio** – esboniodd y staff fod unigolion (gan gynnwys pobl sy'n cysgu ar y stryd) yn cael eu cyfeirio at Solas Cymru drwy'r Porth Tai â Chymorth (pwynt cyswllt sy'n

cynnig tai i bobl ddigartref dros dro neu dros y tymor byr os oes ganddynt anghenion cymorth cysylltiedig â thai) a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd. Dyma unigolion 'mewn perygl' sy'n wynebu heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau lle byddai'n anaddas cynnig llety dros dro iddynt.

Ar hyn o bryd, mae gan Solas Cymru 23 person ar y rhestr aros ar gyfer Clarence Place, ond pwysleisiodd y staff nad yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu nifer yr atgyfeiriadau y maent yn eu cael. Dywedodd y staff y blaenoriaethir unigolion a ystyrir 'fwyaf mewn perygl' pan ddaw lle ar gael.

**Pwy sy'n cysgu ar y stryd a pham** – dywedodd y staff, yn eu profiad hwy, nad diffyg tai fforddiadwy oedd y rheswm dros gysgu ar y stryd ac nad yw'r sawl sy'n cysgu ar y stryd yn gwneud hynny gan nad oeddent yn gallu dod o hyd i gartref. Pwysleisiodd y staff fod pobl sy'n cysgu ar y stryd gan amlaf â mwy nag un o anghenion cymhleth, yn enwedig yn ymwneud ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, gan ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl iddynt fyw'n annibynnol ac ymgartrefu mewn llety.

Dywedodd y staff fod rhai unigolion a oedd wedi gwneud y dewis bywyd i gysgu ar y stryd, ond pwysleisiwyd mai lleiafrif oedd y rhain. Efallai na fyddai'r unigolion hyn yn fodlon ymgysylltu â gwasanaethau, neu hwyrach na fyddent yn teimlo y gallent.

Esboniodd y staff fod rhai unigolion a oedd wedi dewis gadael Solas a dychwelyd i'r strydoedd wedi ceisio cymorth brys (lloches nos) yn dilyn hynny am rywfaint o seibiant, fynychaf yn ystod misoedd y gaeaf. Roedd y staff o'r farn bod llochesi nos yn lleddfu'r ymddygiad hwn dros dro ac, o'r herwydd, nad oeddent o anghenraid yn rhan o'r ateb.

Rhoddodd y staff enghreifftiau o breswylwyr blaenorol a oedd wedi dewis dychwelyd i'r strydoedd wedi iddynt dderbyn budd-daliadau lles. Dywedodd y staff mai'r rheswm dros hyn oedd amharodrwydd unigolion i dalu'r taliad gwasanaeth o £25 yr wythnos, gan ddweud y gallent wneud mwy o arian drwy fegera na'r arian a gawsant mewn budd-daliadau lles.

Roedd 12 person wedi gadael Cynllun Anghenion Cymhleth Clarence Place yn y 12 mis diwethaf.

Esboniodd Ben ac Amanda (sy'n byw yn Clarence Place) iddynt gysgu ar y stryd am y tro cyntaf yn dilyn tor-perthynas (naill ai â theulu neu â phartner).

Dywedodd y staff a'r preswylwyr na fyddai ambell lety dros dro yn derbyn cŵn. Gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd perthynas rhai pobl sy'n cysgu ar y stryd â'u cŵn. Ar gyfer yr unigolion hyn, roedd y berthynas hon yn hollbwysig a byddai'n well ganddynt gysgu ar y stryd na chael eu gwahanu oddi wrth eu ci.

Dywedodd y staff nad oedd rhai o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd ac sy'n defnyddio cyffuriau neu'n yfed alcohol yn gallu cael mynediad at ambell lety dros dro mewn argyfwng, megis lloches nos.

**Anghenion cymorth** – Esboniodd y staff fod gan unigolion yn Clarence Place ystod o anghenion cymorth, â nifer ohonynt â mwy nag un o anghenion cymhleth. Er enghraifft, cyflyrau iechyd meddwl, gan gynnwys seicosis ac anhwylder personoliaeth; camddefnyddio alcohol; camddefnyddio cyffuriau, gan gynnwys crac cocên. Gwnaethant hefyd esbonio bod rhai unigolion wedi profi trawma difrifol, gan gynnwys cael eu cam-drin yn blant a dioddef trais yn y cartref.

Dywedodd y staff fod rhai o'r preswylwyr, hyd yn oed ar ôl gwneud cynnydd sylweddol a newidiadau cadarnhaol, angen cymorth arbenigol, dwys ac y gallent fod angen aros mewn llety â chymorth yn barhaol. Roedd yr unigolion hyn yn annhebygol o allu byw'n annibynnol byth a chynnal tenantiaeth, hyd yn oed gyda chymorth fel y bo'r angen.

**Canlyniadau** - Pwysleisiodd y staff fod y gwasanaethau cymorth dwys a ddarperir yn Clarence House yn gallu trawsnewid bywyd yr unigolion â'r anghenion mwyaf cymhleth. Gwnaethant roi un enghraifft o breswyliwr â hanes o gamddefnyddio alcohol yn ddifrifol a gafodd drawma gan gynnwys cael ei gam-drin yn blentyn a sawl profedigaeth deuluol. Ar ôl 8 mis yn Clarence House, roedd wedi gwneud cynnydd sylweddol ac wedi stopio yfed.

Roedd 15 o'r preswylwyr wedi symud i lety sefydlog o fewn y 12 mis diwethaf.

Er bod y staff wedi rhoi gwybod am nifer o ganlyniadau cadarnhaol, gwnaethant hefyd nodi y bu tair marwolaeth gysylltiedig ag alcohol yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethant egluro bod gan yr unigolion hyn hanes o gamddefnyddio alcohol, â rhai ohonynt yn dewis y ffordd honno o fyw heb fod eisiau gwella o bosibl.

**Ariannu** – Ariennir Clarence Place drwy Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mynegodd y staff eu pryderon ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru i gyfuno'r Grant Cefnogi Pobl â

grantiau eraill, yn enwedig yr effaith ar yr arian a fyddai ar gael i gynlluniau allu cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed.

**Astudiaeth Achos 1**

Mae Ben yn 25 oed ac mae wedi byw yn Clarence House ers dwy flynedd a chwarter. Ar hyn o bryd, mae'n byw yn un o'r fflatiau annibynnol a ddarperir drwy gynllun llety Solas yn Clarence Place.

Yn blentyn, roedd Ben mewn gofal maeth ac aeth i fyw gyda'i ewythr. Pan fu i'w berthynas â'i ewythr dorri, roedd yn ddigartref ac roedd yn cysgu ar soffa ei ffrindiau. Nid oedd Ben yn ymwybodol o'r gefnogaeth a oedd ar gael iddo ac yn y pen draw aeth i fyw ar y stryd. Roedd yn cysgu ar y stryd am sawl mis. Nid oedd Ben yn gallu cael mynediad i ambell lety argyfwng gan fod ganddo gi a oedd yn gydymaith pwysig iddo, ac nid oedd am fod ar wahân oddi wrth y ci. Roedd perthynas Ben â'i gi yn amlwg yn hollbwysig iddo.

Dywedwyd wrth Ben am frecwast Wallich a gynhelir gan bobl eraill a oedd yn cysgu ar y stryd ac a fanteisiodd ar y gwasanaeth hwn yn rheolaidd, ac roedd y brecwast hwnnw'n werthfawr iawn iddo. Gwelodd fod staff Wallich yn gefnogol ac nad oeddent yn ei feirniadu.

Roedd Ben yn gweld yn ystod y dydd yn arbennig o anodd, ac roedd bod heb unlle i fynd a heb ddim i'w gadw'n brysur yn gwaethygu ei bryder. Edrychai ymlaen at y nos pan allai ganfod rhywle addas i setlo, er bod hynny ar y stryd.

Yn y pen draw, arhosodd Ben mewn hostel arhosiad byr ac fe'i hanogwyd gan y staff i fynd i Clarence Place.

Mae Ben yn dioddef o seicosis ac roedd wedi cael ei anfon i'r ysbyty 17 o weithiau cyn symud i Clarence Place. Ers cael cymorth yn Clarence Place, mae wedi cael un pwl o seicosis, a arweiniodd at anfon Ben i'r ysbyty.

Mae Ben wedi pasio ei brawf gyrru yn ddiweddar, ac mae'n gobeithio arbed arian i brynu car. Mae hefyd yn awyddus i addurno ei fflat.

**Astudiaeth Achos 2**

Mae Amanda yn 33 oedd ac mae wedi byw yn Clarence Place ers 2 flynedd a 2 fis.

Mae gan Amanda ddau blentyn sy'n byw ag aelodau o'r teulu, ond mae Amanda, ers cael cymorth gan Solas, yn eu gweld yn rheolaidd bellach.

Yn dilyn tor-perthynas, treuliodd Amanda oddeutu 12 mis yn y ddalfa. Dychwelodd i gartref y teulu unwaith iddi gael ei rhyddhau o'r carchar, ond roedd yn teimlo ei bod yn amhosibl aros yn y cartref hwnnw o ystyried yr amgylchiadau penodol ynghylch ei thor-perthynas. Yn y pen draw, gadawodd gartref y teulu ar ei phen ei hun.

Aeth camddefnydd Amanda o alcohol yn waeth ac roedd yn ddigartref a chanddi broblemau sylweddol â'r ffordd yr oedd yn ymddwyn, a olygai fod yr heddlu'n gwybod am ei hachos.

Roedd Amanda yn cysgu ar y stryd mewn adeilad gwag drws nesaf i Solas yn Clarence Place am tua 4 mis. Defnyddiwyd yr adeilad hwn gan bobl eraill a oedd yn cysgu allan nad oedd yn eu hadnabod. Roedd mewn perygl penodol pan fu'n yfed, a wnaeth yn aml er mwyn helpu iddi gysgu a lleddfu ei pharanoia.

Mae Amanda wedi gwneud newidiadau cadarnhaol sylweddol yn dilyn y cymorth a gafodd gan Solas, gan gynnwys mynd i'r afael â'i chamddefnydd o alcohol. Yn ddiweddar, mae wedi cael ei rhoi'n fwy o flaenoriaeth ar gyfer tai'r awdurdod lleol, ac mae'n gobeithio symud i dŷ cymdeithasol yn barhaol cyn bo hir. Mae Amanda yn edrych ymlaen at gael ei phlant yn byw gyda hi pan fydd yn symud i gartref ei hun.